

# Rhaglen Arolygiaeth ar y Cyd: Canllawiau Rhannu Gwybodaeth

Partneriaid Arolygu Cymru'n rhannu gwybodaeth berthnasol

**Cyhoeddwyd:** Gorffennaf 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 409A2015



Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales



# Cynnwys

## Crynodeb

|            |   |
|------------|---|
| Cyflwyniad | 3 |
|------------|---|

## Canllawiau manwl

|  |   |
|--|---|
| Canllawiau rhannu gwybodaeth   | 4 |
| Egwyddorion rhannu gwybodaeth  | 4 |
| Sail rhannu gwybodaeth   | 4 |
| Egwyddor, diben a buddiannau rhannu gwybodaeth                           | 5 |
| Y cyfrifoldebau a'r sefydliadau yr effeithir arnynt                      | 5 |
| Gwybodaeth i'w rhannu  | 6 |
| Hawliau'r cyhoedd i gael gweld gwybodaeth                                | 6 |
| Gwybodaeth bersonol  | 6 |
| Gwybodaeth gyfrinachol a gwybodaeth sy'n destun gwaharddiad rhag datgelu | 7 |
| Gofynion llywodraethu gwybodaeth   | 7 |

## Atodiadau

|   |   |
|---|---|
| Disgrifiad o'r math o wybodaeth a rennir rhwng partneriaid y Rhaglen Arolygiaeth ar y Cyd | 9 |
|---|---|

# Crynodeb

## Cyflwyniad

- 1 Rhaglen ar y cyd rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru'n gweithredu drwy staff Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn (swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru), ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r Rhaglen Arolygiaeth ar y Cyd. Sefydlwyd y Rhaglen Arolygiaeth ar y Cyd yn hwyr yn 2009 gan y pedwar pennaeth archwilio ac arolygu, a rhoddwyd ei waith ar sail ffurfiol gan gytundeb strategol<sup>1</sup> yn gynnar yn 2011.
- 2 Mae partneriaid Arolygu Cymru'n rhannu gwybodaeth berthnasol. Mae'r canllawiau rhannu gwybodaeth hyn yn cynorthwyo staff (a chontractwyr) yn y pedwar corff archwilio, arolygu a rheoleiddio sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Arolygiaeth ar y Cyd (partneriaid) i rannu gwybodaeth nad yw'n wybodaeth bersonol yn rheolaidd. Mae trefniadau da ar gyfer cyfathrebu a chydweithio rhwng partneriaid yn hanfodol er mwyn gallu datblygu gweithgarwch a chasgliadau archwilio ac arolygu priodol a chydgyssylltiedig.
- 3 Mae'r ddogfen hon yn disgrifio diben penodol rhannu gwybodaeth, y sail gyfreithiol dros ei rhannu, a'r mathau o wybodaeth yr ydym yn eu rhannu. Fe'i cefnogir, lle bo'n berthnasol, gan gytundebau, neu Femoranda Cyd-ddealltwriaeth, ar wahân. Mae trefniadau penodol ar gael o ran rhannu gwybodaeth yn y sectorau iechyd a llywodraeth leol a chyda Llywodraeth Cymru, gan gynnwys uwchgyfeirio pryderon. Mae'r holl ddogfennau a chytundebau ffurfiol hyn i'w cael ar wefannau<sup>2</sup> ein partneriaid.
- 4 Prif ddiben rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid Arolygu Cymru yw galluogi archwilwyr ac arolygwyr i ffurfio safbwynt a barn eglur, amserol, deallus a chytbwys wedi'u seilio ar grebwyll a gwybodaeth dorfol partneriaid Arolygu Cymru. Diben eilaidd iddo yw lleihau'r gwaith i gyrff cyhoeddus o ran darparu gwybodaeth.
- 5 Bydd partneriaid Arolygu Cymru'n rhannu gwybodaeth, a bwrw ei bod yn gyfreithlon gwneud hynny.
- 6 Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bob cyfrwng a ddefnyddir i rannu gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys papur, ffacs a ffôn, yn ogystal â dulliau electronig.

---

<sup>1</sup> Datblygu ein gwaith gyda'n gilydd mewn hinsawdd o newid: Papur ar arolygu, archwilio a rheoleiddio yng Nghymru, Mawrth 2011, hyperlink

<sup>2</sup> LINK to websites with MOU, etc.

# Canllawiau manwl

## Canllawiau rhannu gwybodaeth

### Egwyddorion rhannu gwybodaeth

- 7 Bydd partneriaid Arolygu Cymru'n rhannu gwybodaeth, a bwrw ei bod yn gyfreithlon gwneud hynny. Byddant:
  - yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol;
  - yn defnyddio'r wybodaeth at ddibenion statudol yn unig;
  - yn egluro statws, natur ac ansawdd y wybodaeth i'w gilydd;
  - yn diweddarau a chywiro'r wybodaeth fel bo'r angen, cyn belled ag y bo'n ymarferol; ac
  - yn sicrhau bod pob parti'n gallu deall a dehongli'r wybodaeth yn gywir.
- 8 Nid yw'r canllawiau hyn yn lleihau effaith unrhyw ddarpariaethau statudol ar gyfer mynediad nac unrhyw ddisgresiwn wrth arfer swyddogaethau statudol.

### Sail rhannu gwybodaeth

- 9 O dan adran 23 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gydgyssylltu gwaith asesu a rheoleiddio, gan roi ystyriaeth i raglen waith gyffredinol 'rheoleiddwyr perthnasol' (fel y'u diffiniwyd yn adran 16 y mesur). Mae'r broses o rannu gwybodaeth yn cynorthwyo'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni'r ddyletswydd hon, ac yn helpu partneriaid Arolygu Cymru yn eu harolygiadau statudol eu hunain.
- 10 Yn ogystal, mae'r cytundeb strategol rhwng AGGCC, Estyn, AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi addewid ar y cyd y rhennir gwybodaeth i gefnogi ymrwymiad partneriaid Arolygu Cymru i weithio mewn partneriaeth a chydweithredu wrth arolygu, archwilio a rheoleiddio.
- 11 Yn olaf, diweddarodd yr Archwilydd Cyffredinol ac AGIC eu protocolau gweithredol ar y cyd ar gyfer datblygu rhaglenni gwaith cydgyssylltiedig a rhannu gwybodaeth i gefnogi gwelliannau yn y GIG<sup>3</sup>.

---

<sup>3</sup> [http://www.hiw.org.uk/sitesplus/documents/1047/Operational%20Protocol%20between%20HIW%20and%20WAO\\_welsh.pdf](http://www.hiw.org.uk/sitesplus/documents/1047/Operational%20Protocol%20between%20HIW%20and%20WAO_welsh.pdf)

## Egwyddor, diben a buddiannau rhannu gwybodaeth

- 12 Yr egwyddor sylfaenol yw bod partneriaid Arolygu Cymru'n rhannu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w priod swyddogaethau. Dylai partneriaid Arolygu Cymru rannu gwybodaeth a allai fod o ddefnydd i bartneriaid eraill, yn ogystal â darparu gwybodaeth os gofynnir amdani. Mae'n rhaid rhannu gwybodaeth y gofynnir amdani os nad oes rheswm cyfreithiol pam na cheir ei rannu.
- 13 Mae buddiannau rhannu gwybodaeth yn effeithlon rhwng partneriaid Arolygu Cymru yn cynnwys:
- Bod â'r un ddealltwriaeth yngl n â phryderon sy'n dod i'r amlwg, materion o ddiddordeb proffesiynol, cefndir a chyd-destun.
  - Lleihau unrhyw faich gwaith ychwanegol a roddir ar gyrff a archwilir neu a arolygir o ganlyniad i'n prosesau casglu gwybodaeth ni, trwy gasglu gwybodaeth a dogfennau unwaith yn unig ac yna'u rhannu ymhlith ein gilydd.
  - Cydgysylltu gweithgareddau ar y safle er mwyn lleihau pwysau ychwanegol ar sefydliadau ac unigolion allweddol gymaint â phosibl.
  - Defnyddio adnoddau partneriaid Arolygu Cymru i'r eithaf drwy rannu dadansoddiadau o ddata. Mae enghreifftiau'n cynnwys proffiliau sy'n rhoi cyd-destun y cyrff a archwilir ac a arolygir gennym a dadansoddiad o ddangosyddion perfformiad.
  - Ymateb yn gyflym i faterion â phroffil uchel pan fo'n hanfodol rhannu gwybodaeth er mwyn gallu cydgysylltu ymateb effeithiol.
  - Gweithio'n glyfar ac yn effeithlon i gymryd camau gwella yn y meysydd lle y mae'r angen mwyaf amdanynt.
- 14 Dros amser, dylai pob un o bartneriaid Arolygu Cymru werthuso'n unigol yr holl fathau o dystiolaeth a gwybodaeth sydd ganddynt, o ran eu gwerth posibl i bartneriaid eraill Arolygu Cymru.

## Cyfrifoldebau a sefydliadau yr effeithir arnynt

- 15 Rheolwr Rhaglenni'r Arolygiaethau ar y Cyd sy'n gyfrifol am ddatblygu ac adolygu'r trefniadau rhannu gwybodaeth ar ran Bwrdd y Rhaglen Arolygiaeth ar y Cyd.
- 16 Mae holl staff, neu gontractwyr, yr holl bartneriaid Arolygu Cymru sy'n gweithio â'r darparwyr gwasanaethau perthnasol yn gweithio o fewn egwyddorion y ddogfen hon.
- 17 Bydd pob un o bartneriaid Arolygu Cymru'n sicrhau bod eu holl staff presennol a staff newydd a benodir yn cael hyfforddiant priodol mewn rhannu gwybodaeth.

## Gwybodaeth i'w rhannu

- 18 Mae **Atodiad 1** yn amlinellu, ar lefel uchel, y mathau o ddata a rennir gennym. Mae rhestrau manwl o'r wybodaeth sy'n cael ei chadw gan bob un o bartneriaid Arolygu Cymru ar gael ar eu cofrestrau asedau gwybodaeth unigol.
- 19 Os bydd unrhyw aelod o staff yn ansicr a ddylid rhannu darn penodol o wybodaeth, dylent holi perchennog perthnasol yr ased gwybodaeth o fewn eu sefydliad neu aelod o fwrdd y rhaglen.

## Hawliau'r cyhoedd i gael gweld gwybodaeth

- 20 Ymdrinnir ag unrhyw geisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n ymwneud â gwybodaeth a rannwyd, yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd partneriaid Arolygu Cymru felly yn glynu at y Cod Ymarfer a bennwyd o dan adran 45 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gan gynnwys y canllawiau ar ymgynghori â thrydydd parti. Felly, pan fo unrhyw wybodaeth a gafwyd gan bartner arall yn dod yn destun cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bydd y partner a ddarparodd y wybodaeth yn drydydd parti perthnasol y dylai'r partner sy'n derbyn y cais ymgynghori ag ef yngl n â'r cais.
- 21 Bydd partneriaid Arolygu Cymru yn ymgynghori yn yr un modd yngl n ag unrhyw gais am wybodaeth a ddaw iddynt o dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.
- 22 Bydd partneriaid Arolygu Cymru'n cymryd gofal i osgoi prosesu gwybodaeth bersonol yn annheg neu'n anghyfreithlon wrth ymgynghori â'i gilydd yngl n â cheisiadau am wybodaeth gan unigolion.

## Gwybodaeth bersonol

- 23 Yn gyffredinol, ni fydd gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu rhwng partneriaid Arolygu Cymru. Er hynny, mewn amgylchiadau eithriadol, fe allai cyrff partner Arolygu Cymru rannu gwybodaeth bersonol heb ganiatâd er mwyn, ymhlith pethau eraill, atal pobl eraill rhag cael eu cam-drin neu gael niwed difrifol. Os oes pryderon yn ymwneud â materion amddiffyn plant neu oedolion, mae'n rhaid i staff ddilyn gweithdrefnau eu sefydliad. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd angen rhannu gwybodaeth bersonol at ddibenion archwilio neu arolygu, megis pan mae'n angenrheidiol datgelu (rhwng cyrff partner Arolygu Cymru) enwau rheolwyr sy'n peri risg o ran cyflawni'n effeithiol y dyletswyddau gwella o dan fesur 2009.

- 24 Mae'n gyfreithlon rhannu gwybodaeth bersonol heb ganiatâd pan fo hynny'n angenrheidiol, a bwrw y bodlonir o leiaf un o amodau eraill Atodlen 2 i'r Ddeddf Diogelu Data (ac yn achos gwybodaeth bersonol sensitif, a bwrw y bodlonir o leiaf un o'r amodau yn Atodlen 3 i'r Ddeddf Diogelu Data hefyd). Mae amodau Atodlen 2 yn cynnwys yr angen i:
- gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol;
  - amddiffyn buddiannau hanfodol gwrthrych y data (yr unigolyn y mae a wnelo'r wybodaeth ag ef);
  - gweinyddu cyfiawnder;
  - arfer swyddogaethau statudol; a
  - chyflawni swyddogaethau o fath cyhoeddus a arferir er budd y cyhoedd gan unrhyw berson.
- 25 Gan amlaf, bydd y corff a archwilir neu a arolygir, y cafwyd y wybodaeth ganddo, yn cael ei hysbysu yngl n â'r penderfyniad i rannu'r wybodaeth, oni fyddai hynny'n achosi risg o niwed i eraill, yn llesteirio unrhyw ymchwiliad neu achos cyfreithiol, neu yn anghyfreithlon.

## Gwybodaeth gyfrinachol a gwybodaeth sy'n destun gwaharddiad rhag datgelu

- 26 Mae'n bosibl bod peth o'r wybodaeth a gedwir gan bartneriaid yn ddarostyngedig i gyfraith gyffredin cyfrinachedd, megis pryderon am safonau gofal a grybwyllwyd wrth bartner mewn gohebiaeth oddi wrth aelod o'r cyhoedd. Pan fo gwybodaeth yn ddarostyngedig i gyfraith gyffredin cyfrinachedd, cynhelir cyfrinachedd (hynny yw, ni fydd y wybodaeth yn cael ei rhannu) oni bai ei bod yn sylweddol groes i fudd y cyhoedd i gynnal y cyfrinachedd. Fodd bynnag, nid yw cyfraith gyffredin cyfrinachedd yn atal hawliau mynediad statudol rhag cael eu harfer.
- 27 Bydd gwaharddiadau rhag datgelu, megis adran 54 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, yn atal sefydliadau rhag rhannu gwybodaeth pan fyddant yn gymwys.

## Gofynion llywodraethu gwybodaeth

### Ansawdd data

- 28 Pan rennir gwybodaeth am y tro cyntaf, y cychwynnydd sy'n gyfrifol am ei hansawdd a'i dilysrwydd ynghyd â pha mor gyfredol yw'r wybodaeth.
- 29 Rhaid i holl ddefnyddwyr y wybodaeth hysbysu'r cychwynnydd os yw gwybodaeth yn newid neu os nodir anghysondebau.
- 30 Bydd partneriaid yn cynnal ansawdd y wybodaeth a rannwyd yn ôl y safonau a ddisgwylir o fewn eu sefydliadau eu hunain.

### Ymdrin â gwybodaeth, ei storio, ei throsglwyddo a chael gwared arni

- 31 Mae'n rhaid i wybodaeth a gedwir gan unrhyw un o bartneriaid Arolygu Cymru gael ei rheoli yn unol â pholisïau rheoli gwybodaeth y partner hwnnw, ac yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a chyfreithiau eraill perthnasol.
- 32 Rhaid defnyddio systemau diogelwch priodol wrth drosglwyddo a storio gwybodaeth.

### Trefniadau diogelwch sefydliadau

- 33 Mae'n rhaid i bob dull o rannu gwybodaeth fodloni safonau diogelwch partneriaid Arolygu Cymru.
- 34 Pe digwydd i ddiogelwch gael ei dramgwyddo, hysbysir y swyddog dynodedig perthnasol (o bosibl perchennog yr ased gwybodaeth berthnasol) ar gyfer pob un o bartneriaid Arolygu Cymru yr effeithir arno.



# Atodiad 1

## Disgrifiad o'r math o wybodaeth a rennir rhwng partneriaid y Rhaglen Arolygiaeth ar y Cyd

| Beth sy'n cael ei rannu?  | Pam mae'r wybodaeth yn cael ei rhannu?  |
|---|---|
| Adroddiadau heb fod yn rhai cyhoeddus e.e. adroddiadau iechyd meddwl gan AGIC, adroddiadau lleol heb eu cyhoeddi gan yr Archwilydd Cyffredinol. | Sicrhau bod partneriaid eraill yn ymwybodol o ganfyddiadau cyffredol.   |
| Rhaglenni gwaith, cynlluniau ar gyfer y dyfodol ac amserlenni cyhoeddi  | Ymwybyddiaeth o weithgareddau partneriaid eraill, cynllunio pryd y gellid cynyddu effeithlonrwydd ac ysgafnhau'r baich ar randdeiliaid trwy gydweithio. |
| Gwybodaeth waith ar gyfer prosiectau ar y cyd (yn dibynnu ar y prosiect)  | Yr un wybodaeth ar gael i'r tîm i gyd.  |
| Canllawiau a thempledi archwilio ac arolygu   | Dysgu oddi wrth ei gilydd ac ystyried y cyfleoedd ar gyfer dulliau gwaith cyffredin.  |
| Astudiaethau achos arfer da   | Rhannu gwersi a ddysgwyd ac arwain at welliannau yn y gwasanaeth.   |
| Proffiliau ardaloedd, gwybodaeth gyd-destun   | Lleihau achosion o ddyblygu gwaith, a rhannu gwybodaeth.  |
| Cysylltiadau, arbenigedd, a sgiliau   | Caniatáu i bartneriaid gael gafael ar wybodaeth fwy meddal. Hyrwyddo gwaith ar y cyd trwy wneud staff yn hygyrch i'w gilydd.                            |

Ffynhonnell: Gweithgor Rhannu Gwybodaeth Arolygu Cymru

